Chwaraeon RhCT
Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - 8fed enillydd

# Saethwyr Blandy Jenkins

Gweithiodd y clwb yn ddiflino i aros ar agor yn ystod y cyfyngiadau symud. Ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, cynhaliodd y clwb ddiwrnod 'Have a GO' gyda chefnogaeth Archery GB. Bwriad yr achlysur oedd recriwtio aelodau newydd a chodi arian. Roedd nifer o bobl wedi mwynhau ac er gwaethaf ambell gawod o law cynyddodd aelodaeth y clwb a'r cyrsiau i ddechreuwyr.

Derbyniodd Simon Carter, Cadeirydd y Clwb, gydnabyddiaeth gan Archery GB am ei ymdrechion. Roedd y clwb hefyd ar restr fer tlws Toxophilus Archery GB, sy'n cydnabod clybiau sydd wedi mynd yr ail filltir i gefnogi'u saethwyr ac ymgysylltu â'r aelodau ac sydd wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r gamp. Daeth y clwb yn ail.

